BALED

# "Ffair Glan y mor"

NEU

# "Ffair Aberayron".

GAN

W. LLEWELLYN, TREDEGAR, MON.

Argraffwyd gan D. Hanney, Tredegar Newydd.

# Ffair glan y môr.

Chwi feibion a merched dewch nawr fel un côr
I'm clywed yn canu i ffair glan y môr;
Yn nhref Aberayron cynhelir y ffair—
Y gwir a fynegaf rho'f i chwi fy ngair—
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Mis Tachwedd bob blwyddyn daw lluoedd yng hyd
I ffair Aberayron o bedwar ban byd;
Bydd llawer yn cychwyn cyn toriad y wawr,
Gan faint fydd eu hawydd i ddyfod i lawr.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Hoff fan cyfarfyddiad deniadol y'w hon
Ir lluoedd i gyrchu i'r dref ger y don,
Y ffair ai holl ffwdan i lawer a r'oes
Gyfeiriad iw bywyd y gweddill o'u hoes.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

UNIV. COLL. OF * NORTH WALES * LIBRARY

10932

Bu ffair Aberayron i dô ar ol tô
Yn fan atyniadol hyfrydol y frô,
Yn fan i gyfnewid y gyflog am waith,
A rho'i iawn gyfeiriad i lwybrau y daith.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Morwynion a gweision a gwragedd a phlant
Fydd yno 'rol cerdded tros fynydd a phant
Ac ambell henafgwr, trwy gymorth ei ffon,
A welir yn fore yn ffair glan y don.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon

Daw llwythau Llangeitho i ffair glan y môr,
Trigolion yr Ystrad fydd yno 'n ystor,
A phobol Cilcennin a Ciliau a ddaw
I ffair Aberayron, trwy'r gwynt a thrwy'r gwlaw.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Yn ffair Aberayron ca'dd Bet Bwlch - y - dwr
Y tro byth gofiadwy gyfarfod ai gwr,
A Lewis or Felin, gwr goleu ei ben,
Fan hon y tro cyntaf y gwelodd ef Gwen.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Aeth Wil o Tre filan i'r ffair pan yn llanc
Ac yno y gwelodd ef Beti or Banc,
Mewn blwyddyn a hanner priodwyd y ddau
Daeth amser y medi 'rol tymor yr hau.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

O ffair Aberayron aeth Ifan Penlon
Ir Hafod i weini at weddw Twm Shon,
A chyn' pen y flwyddyn, priodi a wnaeth
Ai feistres, gallasai wneyd rhywbeth oedd waeth.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Ar ol hirymaros aeth Morgan Lan-las
I ffair Aberayron i edrych am was,
Bu'n hynod o ffodus, cyfarfu a llanc,
Fu'n gymorth i Morgan ro'i pres yn y Banc.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Nid oedd Dan or Dolau yn fawr ysgolhaig,
Ac nid oedd fel llawer yn berchen ar wraig,
Cyfarfu a geneth yn ffair glan y mor,
Mae bellach yn briod, ac arian yn 'stor.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

I ffair Aberayron aeth John Berllan-lwyd,
I chwilio am forwyn i drefnu ei fwyd,
Fe ga'dd un olygus o fro Dderwen-gam,
Mil gwell fuasai iddo gyflogi ei mam.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

'Roedd siopwyr y Dreflan yn un a chytun
Yn trefnu eu nwyddau i weddu pob un,
A gwragedd tafarndai yn edrych yn llon,
Tra'n gwerthu hoff ddiod darllawdy Llanon.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

'Roedd llefydd cyfaddas gerllaw y Pwll Cam,
Yn cynnwys rhai pethau o wlad newyrth Sam,
Teganau o'r Almaen, a "Merry go round,"
A ride for a penny if this could be found.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Cheap Jack a fydd yno yn gwaeddi yn groch
A gwragedd Caerfyrddin a'u Ginger bread coch,
Afalau sir Henffordd, a llestri o goed,
Y gore a welwyd yn ngymru erioed.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Coeg feddyg fydd yno yn gwerthu rhyw beth.
A llawer yn prynu er trymed y dreth,
Yr oedd ei gyffeiriau at wella pob clwyf
Ond dioddef hyd yma mae pobol y plwyf.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Ar 'strydoedd y dreflan cynhelir y ffair
A phawb ar eu goreu fel gwartheg mewn gwair,
Pob un yn ymddangos yn ceisio gwneyd llēs,
Ir sawl ddeuai yno i wario eu prēs.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Ar standing gyfagos bydd gwlanen ar werth,
A pheiriant trydanol er profi eich nerth,
Crymanau a rhawiau, esgidiau a chlocs;
A rhai yn dolefain, 'rol derbyn y shocks.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Mewn trol bedair olwyn 'roedd Ifan or north,
Yn gwerthu ysgadan o fau Aberporth,
Ac yno yn ymyl 'roedd Sara Ffos'ffin,
Yn gwerthu Cacennau am geiniog yr un.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

I'r ffair yn y bore aeth Dai Perthi-crin,
Mewn Cot lwyd y ddafad a breeches penlin,
Fe yfodd yn helaeth o gwrw y Star,
Dychwelodd iw fwthyn heb got ar ei war.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Ar gefen ei ferlen aeth Wil Pwll y pant,
Ir ffair yn y bore yn debyg i Sant,
Y ferlen aeth adref yn gynar cyn nos,
Ond Wil gafodd wely ar waelod y ffos.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw i ddi yn llawen a llon.

Aeth Cati or Cribyn i chwilio am Jack
A chafodd e'n cysgu yn 'stabal y Black—
Dihunodd yn ebrwydd pan glywodd ei llais
Attebodd, "whatch matter, rwy'n dipyn o sais".
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Y ffair ar diwyrnod a dynnodd ir pen,
Ar haul a fachludodd o entrych y nen,
'Rol trannoeth i wawrio bydd llawer yn dost
A llu yn gofidio o herwydd y gost.
Ffair hynod y'w hon yn nhref glan y don.
Ar lluoedd ddaw iddi yn llawen a llon.

Er cymaint fynegwyd, mae eto ystor
O bethau iw traethu am ffair glan y mor,
Nid y'w y manylion yn barod wrth law,
Y gweddill gewch gennyf rhyw adeg a ddaw.
Ffair hynod y'w hon mae'r lluoedd yn llon,
Ar ol eu hymweliad a ffair glan y don.